The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Prosiect Arloesi ac Arddangos Cierco |
| **Cyfeirnod ffeil** | Ddim yn berthnasol |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 17 Ionawr 2019 |
| **Cyfarfod â** | Cierco a Llywodraeth Cymru |
| **Lleoliad** | Temple Quay House |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod sefydlu |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

**Crynodeb o bwyntiau allweddol a drafodwyd a chyngor a roddwyd**

Dywedodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn yn cael ei wneud o'r cyfarfod ac yn cael ei gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddwyd o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

**Cefndir a chyflwyniad i'r prosiect**

Esboniodd yr Ymgeisydd fod ganddo brofiad o ddatblygu prosiectau ffermydd gwynt ar y môr yn yr Alban. Bydd y prosiect a gynigir yn brosiect arddangos ar gyfer technolegau ffermydd gwynt newydd gydag allbwn o 500MW. Bydd y cynnig yn cael ei gyllido gan ddatblygwyr ac mae ei angen ar gyfer arddangos tyrbinau gwynt a strwythurau ategol newydd. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn cyfateb i 5 safle Profi ac Arddangos 100MW (fel y'i diffinnir gan Ystad y Goron), a ddatblygir fel un prosiect, y gellir ei ddefnyddio i brofi gwahanol fathau o dyrbinau a strwythurau ategol. Mae ei ddatblygu fel un prosiect yn cyflawni arbedion economaidd ychwanegol trwy fwydo'r datblygiad i is-orsaf alltraeth unigol gydag un cysylltiad parhaus â'r seilwaith sy'n cysylltu ar y tir. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai angen trwydded forol/trwyddedau morol ar y datblygiad a gynigir gan gynnwys y ceblau alltraeth. Naill ai Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England (NE), neu'r ddau, fyddai'r corff trwyddedu morol, yn dibynnu ar ba ddyfroedd tiriogaethol y lleolir y datblygiad a gynigir ynddynt. Cynghorwyd yr Ymgeisydd i adolygu Prosiect Estyniad Fferm Wynt ar y Môr Burbo Bank a leolwyd yn nyfroedd Cymru a dyfroedd Lloegr.

Nid yw'r Ymgeisydd wedi penderfynu hyd yn hyn p'un ai y bydd yn gwneud un cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) 500MW, neu bum cais 100MW yr un ar wahân. Bydd y corff cydsynio perthnasol yn dibynnu ar leoliad a chapasiti cynhyrchu pob prosiect; yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am geisiadau hyd at 350MW a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) sy'n gyfrifol am gynigion sy'n fwy na 350MW. Eglurwyd ymhellach na all yr Arolygiaeth roi cyngor p'un ai yw prosiect yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol cyn cyflwyno cais. Fodd bynnag, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn gallu rhoi cyngor ar sail heb ragfarnu p'un ai yw'n ystyried bod prosiect yn un a ddaw o fewn cymhwysedd

Gweinidogion Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru y gallai BEIS roi cyngor hefyd. Eglurwyd ymhellach y bydd lleoliad a chapasiti cynhyrchu'r datblygiad a gynigir yn penderfynu pa lwybr cydsynio y dylid ei ddilyn.

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i adolygu Nodyn Cyngor Naw: Amlen Rochdale er mwyn deall sut i fynd i'r afael ag ansicrwydd a darparu'r hyblygrwydd y gallai fod yn angenrheidiol ar gyfer prosiect fel hwn. Eglurodd yr Ymgeisydd y byddai'r prosiect yn sefydlu paramedrau clir ar gyfer yr asesiad ac felly roedd o'r farn bod yr hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer y prosiect yn gyraeddadwy.

**Cysylltu â'r grid**

Mae'r Grid Cenedlaethol wedi cynnig pedwar posibilrwydd i'r Ymgeisydd ar gyfer cysylltu â'r grid (sef Pentir, Bodelwyddan, Cei Connah a Stannah), a Phentir sydd fwyaf tebygol o gael ei ddewis.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod mewn trafodaeth ag Ystad y Goron ynghylch prydlesu'r safleoedd morol alltraeth, a safleoedd blaenorol Rhiannon ac Atlantic Array yw'r ardaloedd mwyaf tebygol. Disgwylir penderfyniad gan Ystad y Goron ar y mater hwn ddiwedd gwanwyn/dechrau haf 2019. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd mai'r safle a ffefrir ganddo yw safle Rhiannon (i'r gogledd o Ynys Môn) ond bod ganddo ddiddordeb yn safle Atlantic Array hefyd (oddi ar arfordir De Cymru). Yn ogystal ag Ystad y Goron, mae'r Ymgeisydd wedi bod mewn cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r datblygiad a gynigir.

**Arolygon**

Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu defnyddio gwybodaeth o arolygon ecolegol sylfaenol sy'n bodoli, a gasglwyd ar gyfer safleoedd Rhiannon ac Atlantic Arrays, a bydd yn diweddaru'r rhain â data a gasglwyd yn fwy diweddar i ddarparu data arolwg ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd fod canllawiau presennol gan y cyrff cadwraeth natur statudol yn nodi y dylai fod gwerth dwy flynedd o ddata arolygon wedi'u cymryd o'r cyfnod arolygu blaenorol o ddwy flynedd. Eglurodd yr Arolygiaeth nad yw hyn wedi'i osod i lawr mewn statud ond ei fod yn gyngor gan y cyrff cadwraeth natur statudol. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r Ymgeisydd wneud ymdrech i drafod a chytuno ar y dull gyda'r cyrff cadwraeth natur statudol perthnasol gan sicrhau bod y dull hwn yn dderbyniol. Yn ogystal, cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i adolygu Nodyn Cyngor Dau ar Bymtheg: Asesu Effeithiau Cronnol wrth benderfynu ar ei ddull o asesu effeithiau cronnol. Eglurodd yr Arolygiaeth fod proses Deddf Cynllunio 2008 yn disgwyl y cyflwynir gwybodaeth gyflawn ar adeg cyflwyno cais. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig y dylid cyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar ôl gwneud cais a dylid gwneud ymdrech i osgoi sefyllfa o'r fath.

**Dyddiad cyflwyno disgwyliedig**

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr Arwerthiant Contractau Gwahaniaeth yn 2021, byddai angen DCO erbyn diwedd 2020. Darperir amserlenni pellach ar ôl i drafodaethau ag Ystad y Goron gael eu cwblhau, a chadarnhau safle a ffefrir, a datblygu'r cynigion.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Cynghorwyd yr Ymgeisydd i ystyried sut y bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn arbennig y wybodaeth a fyddai'n cael ei darparu yn y Gymraeg. Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yng Nghymru ac mae gan bobl hawl i gymryd rhan yn y naill iaith neu'r llall. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn ystyried y mater a'i fod yn deall pwysigrwydd y Gymraeg.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ôl i Ystad y Goron wneud ei benderfyniad ar y brydles; bydd yr Ymgeisydd yn cysylltu'r â'r Arolygiaeth er mwyn trefnu hyn.

**Penderfyniadau penodol/ gwaith dilynol sy'n ofynnol?**

- Yr Ymgeisydd i gadarnhau p'un ai yw safleoedd Rhiannon ac Atlantic Arrays wedi'u lleoli yn nyfroedd Cymru yn unig.
- Bydd yr Arolygiaeth yn anfon ei manylion cyswllt ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England at yr Ymgeisydd.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Meeting note

| | |
|---|---|
| **Project name** | Cierco Innovation and Demonstration Project |
| **File reference** | N/A |
| **Status** | **Draft** |
| **Author** | The Planning Inspectorate |
| **Date** | 17 January 2019 |
| **Meeting with** | Cierco and the Welsh Government |
| **Venue** | Temple Quay House |
| **Meeting objectives** | Inception meeting |
| **Circulation** | All attendees |

**Summary of key points discussed and advice given**

The Planning Inspectorate (the Inspectorate) advised that a note of the meeting would be taken and published on its website in accordance with section 51 of the Planning Act 2008 (the PA2008). Any advice given under section 51 would not constitute legal advice upon which applicants (or others) could rely.

**Background and introduction to the project**

The Applicant explained that it had experience of developing offshore wind farm projects in Scotland. The proposed project will be a demonstration project for new wind farm technologies with an output of 500MW. The proposal will be funded by developers and is required to demonstrate new offshore wind turbines and supporting structures. The Applicant intends to divide the site into 5 x 100MW plots which can be used to test various types of turbines and support structures. It was further explained that in order to delivery economic efficiencies the five projects within the site would feed in to a single offshore substation with a single ongoing connection to the onshore connecting infrastructure. The Inspectorate advised that the proposed development including the offshore cables would need a marine license(s). The marine licensing body could be either Natural Resources Wales (NRW), Natural England (NE), or both, depending on which territorial waters the proposed development is situated. The Applicant was advised to review the Burbo Bank Extension Offshore Wind Farm Project which was located in both English and Welsh waters.

The Applicant has yet to decide if it is going to make one 500 MW Development Consent Order (DCO) application, or five separate applications of 100 MW each. The relevant consenting body will depend on the location and generating capacity of each project; in Wales the Welsh Government is responsible for applications up to 350MW and the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy (BEIS) for proposals exceeding 350MW. It was further clarified that the Inspectorate cannot provide advice as to whether a project is a National Significant Infrastructure Project before an application has been submitted. However, the Welsh Government confirmed that it is able to advise on a without prejudice basis whether it regards a project to be one falling within the competency of the Welsh Ministers. The Welsh Government advised that BEIS might also

be able to give advice. It was further clarified that the location and generating capacity of the proposed development will determine which consenting route should be followed.

The Inspectorate advised the Applicant to review Advice Note Nine: Rochdale Envelope to understand how to address uncertainty and provide the flexibility that a project of this sort may need. The Applicant clarified that the project would establish clear parameters for the assessment and therefore regarded the flexibility needed for the project to be achievable.

**Grid connection**

The Applicant has been offered four possibilities for grid connections by National Grid (Pentir, Bodelwyddan, Connah's Quay and Stannah), with Pentir most likely to be selected.

**Stakeholder engagement**

The Applicant confirmed that it is in discussion with The Crown Estate (TCE) about leasing the offshore marine sites with the former Rhiannon and Atlantic Array sites as the most likely areas. A decision from TCE on this matter is anticipated in late spring/early summer 2019. The Applicant confirmed that its preferred site is the Rhiannon site (north of Anglesey) but was also interested in the Atlantic Array site (off the South Wales coast). In addition to TCE, the Applicant has been in contact with National Grid and the Welsh Government regarding the proposed development.

**Surveys**

The Applicant explained that it intends to utilise existing baseline ecological survey information, collected for the Rhiannon and Atlantic Arrays, which it will update with more recently collected data to provide survey data for a two year period. The Inspectorate informed the Applicant that current guidance from the statutory nature conservation body's (SNCBs) states that there should be two years' worth of survey data taken from the preceding two year survey period. The Inspectorate clarified that this is not set down in statute but is the advice from the (SNCB). The Inspectorate advised the Applicant to make effort to discuss and agree the approach with the relevant SNCBs that this approach is acceptable. The Inspectorate further advised the Applicant to review Advice Note Seventeen: Cumulative Effects Assessment when determining its approach to the assessment of cumulative effects. The Inspectorate explained that the PA2008 process is predicated on a complete submission of information at the point of application. There were only limited circumstance in which additional information should be submitted post application and effort should be made to avoid a situation of this sort.

**Anticipated submission date**

In order to qualify for the Contract for Difference Auction in 2021 a DCO would be required by the end of 2020. Further timescales will be provided once discussions with TCE have completed, a preferred site is confirmed, and the proposals are advanced.

**Any Other Business**

The Applicant was advised to consider how it will engage with stakeholders and in particular the information that would be provided in the Welsh language. English and

Welsh have equal status in Wales and people are entitled to participate in either language. The Applicant confirmed that it will give the matter consideration and understood the importance of the Welsh language.

The next meeting will be held after TCE has made its decision on the lease; the Applicant will contact the Inspectorate to arrange.

**Specific decisions/ follow-up required?**

- The Applicant to confirm whether the Rhiannon and Atlantic Arrays are located in Welsh waters only.
- The Inspectorate will send its contact details for NRW and NE to the Applicant.